**Cyngor Partneriaeth Cymru – 25 Tachwedd 2024 –**

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Raglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLlLC

## Pwrpas

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gwaith y pum grŵp tasg a gorffen a sefydlwyd gan y Panel Strategaeth Hinsawdd, gyda chefnogaeth Rhaglen Newid Hinsawdd CLlLC[1]. Mae'n nodi'r cynnydd yn erbyn trywydd y 'sector cyhoeddus' i 'sero net'[2] ac ymrwymiadau yng nghynllun lleihau carbon 'Sero Net Cymru' ar gyfer Cyllideb Garbon 2, 2021-25 (gweler Atodiad 1). Mae hefyd yn edrych ymlaen o ran y gefnogaeth y bydd ei hangen ar gynghorau yn ystod Cyllideb Garbon 3 (2026-30).

## Crynodeb

2. Dyma'r prif bwyntiau yn y papur hwn:

   - Mae pob un o'r pedwar grŵp tasg a gorffen datgarboneiddio a sefydlwyd gan y Panel Strategaeth Hinsawdd wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed. Mae ystod o gefnogaeth wedi'i chynnig ac mae Cynghorau wedi bod yn ymgysylltu'n dda.
   - Mae hyn wedi helpu Cynghorau i wneud cynnydd o ran y trywydd ar gyfer y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn gyson ac mae angen annog defnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael a rhannu arferion da. Dim ond adeg hynny y bydd modd bodloni'r meini prawf i fod 'cryn bellter ar hyd y daith' yng ngham 2022-26 o'r trywydd.
   - Cafodd mwy o sylw ei roi i addasiadau (gan gynnwys gwytnwch cymunedol a gwytnwch gwasanaeth o ran risgiau newid hinsawdd). Roedd Cynghorau yn ategu'r Strategaeth Addasu a lansiwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a bydd yn parhau i gefnogi gyda'r gwaith o'i gweithredu.
   - Darparwyd ystod o waith trawsbynciol arall a chymorth pwrpasol i awdurdodau lleol a cheir enghreifftiau yn yr adroddiad.
   - Gan fod disgwyl i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen CLlLC ddod i ben ddiwedd mis Mawrth nesaf, gofynnir i'r Cyngor Partneriaeth ymestyn y rhaglen am ragor o amser. Bydd yn cynnig cymorth parhaus i Gynghorau wrth iddynt weithio tuag at 2030, gan gyfrannu at gynlluniau ar gyfer Cyllideb Garbon 3, ac (ii) ystyried mesurau lliniaru ac addasu cymunedol sy'n gysylltiedig â tharged sero net ehangach Cymru a'r DU ar gyfer 2050.

[1] Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnig cefnogaeth i alluogi CLlLC i ddarparu Rhaglen Cefnogi Newid Hinsawdd ers 2021, gyda dyraniad blynyddol o rhwng tua £300,000 a £360,000.

[2] Statws di-garbon net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae'r trywydd yn pennu tri cham, sy'n nodi lle y dylai cyrff cyhoeddus anelu tuag ato ar bob cam fel a ganlyn: 'cyflymu' (2021-2022); 'cryn bellter ar hyd y daith' (2022-2026) a 'cyrraedd ein nod' (2026-2030).

- Bydd mathau eraill o gymorth (e.e. drwy'r Grant Gwres Carbon Isel a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru) yn parhau i fod yn bwysig hefyd.

**Cefndir**

3. Ers yr adroddiad diwethaf i'r Cyngor Partneriaeth (Mawrth 2024), mae pob grŵp (a gadeirir gan Brif Weithredwr Cyngor) wedi adrodd i'r prif Banel Partneriaeth Hinsawdd ar gynnydd yn erbyn eu hymrwymiadau Sero Net Cymru priodol. Ceir crynodeb o'r cynnydd isod.

**Cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau**

**(a) Caffael**

4. Dyma'r cynnydd i'w adrodd ynghylch caffael:

- Ymchwilio i ddatgarboneiddio ym maes gofal cymdeithasol gan gynnwys dadansoddi data gwariant a mannau problemus o ran allyriadau ac ymchwilio i ddulliau gweithredu. Bydd canllawiau'n cael eu llunio ar strategaethau wedi'u targedu ar gyfer lleihau allyriadau, gan gynnwys astudiaethau achos arferion gorau.
- Ymchwilio a chefnogi'r defnydd o Gynlluniau Lleihau Carbon gan gynnwys adolygu canllawiau a heriau presennol, ymgysylltu â budd-ddeiliaid polisi, a llunio canllawiau newydd i Gynghorau a'u cyflenwyr. Bydd y canllawiau newydd hyn yn cynnwys arferion effeithiol ar gyfer ymgysylltu â chyflenwyr a gwerth adrodd ar allyriadau.
  - Mae pum awdurdod lleol yn cymryd rhan yn y ddwy ffrwd waith yma, a fydd yn adrodd yn Chwarter 4 2024-25: Casnewydd, Powys, Sir Ddinbych, Gwynedd a Phen-y-bont ar Ogwr.
- Mapio teclynnau a gweithgarwch sero net ar draws awdurdodau lleol i helpu gyda chydweithio, osgoi dyblygu a llywio'r cynllun gwaith.
- Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru (Caffael Masnachol a Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus) ar feysydd gwaith allweddol gan gynnwys Nodyn Polisi Caffael Cymru 06/21 a symud ymlaen at adroddiadau carbon haen 2.
- Cyflwyno gwaith y grŵp yn nigwyddiad cydweithio 'Procurex Cymru' (5 Tachwedd 2024).

5. Arweiniodd gwaith y grŵp at adolygiad o'r ymrwymiadau sero net a wnaed yng Nghymru, gan olygu canolbwyntio mwy ar gaffael sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol. Mewn perthynas â'r trywydd, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae angen rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg ymhlith yr anghenion 'cryn bellter ar y daith' cyn bod modd i Gynghorau honni eu bod yn 'cyrraedd ein nod'.

## (b) Cludiant

6. Dyma'r cynnydd i'w adrodd ynghylch cludiant:

- Lluniwyd Map Proses Fflyd Lwyd gan Grant Thornton i gefnogi Cynghorau gyda thrawsnewid o fflyd lwyd (cerbydau personol sy'n cael eu gyrru at ddibenion busnes) i gerbydau trydan a ffyrdd eraill o deithio llesol a chynaliadwy.

- Mae adnodd hierarchaeth teithio cynaliadwy wedi'i ddatblygu ar gyfer CLlLC gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i hyrwyddo cyd-fanteision teithio llesol a chynaliadwy ac awgrymu ffyrdd y gellir lleihau teithiau busnes Cynghorau a nifer y staff sy'n teithio i'r gwaith neu eu cyfnewid am ddulliau mwy cynaliadwy. Tynnir sylw at dri awdurdod lleol yn yr astudiaethau achos: Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Phen-y-bont ar Ogwr.

- Mae adroddiad blynyddol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru 2023-24 yn cynnwys astudiaethau achos ar gaffael cydweithredol awdurdodau lleol ar gyfer cerbydau trydan (a drefnwyd yn wreiddiol gan y Panel Strategaeth Hinsawdd) a fflyd drydan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

- Ar gyfartaledd ar draws yr awdurdodau lleol, mae bron i 10% o'r fflyd yn gerbydau trydan erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn amrywio o un Cyngor i un arall ac o ran mathau o gerbydau. Er enghraifft, mae cyfraddau cyflwyno cerbydau masnachol trwm a cherbydau casglu sbwriel yn llawer is o gymharu â cheir a faniau ysgafn. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru bellach yn darparu adroddiadau bob chwe mis ar gyfer monitro newid.

7. Mae'r datblygiadau uchod yn dangos cynnydd da yn erbyn yr ymrwymiadau net sero yng Nghymru. Maent hefyd wedi cynnig cefnogaeth i Gynghorau i'w helpu i symud ymlaen o ran y 'trywydd', ond mae'r cynnydd bellach yn dibynnu i raddau ar faint ohonynt fydd yn manteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael.

## (c) Adeiladau

8. Dyma'r cynnydd i'w adrodd ynghylch adeiladau:

- Darfu darn o ymchwil feintiol gyda Phartneriaethau Lleol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a CLlLC ar y cyd. Mae hyn yn casglu ystod eang o ddata ynghylch adeiladau, fflyd a goleuadau stryd Cynghorau ac yn creu Cynlluniwr Sefyllfaoedd Sero Net gyda chostau cyfalaf ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn helpu gyda phenderfyniadau strategol mewn perthynas â datgarboneiddio.
    - Bu i bob un o'r 22 awdurdod lleol gyflwyno data ar draws cyfanswm o 4,368 o safleoedd.

    - Byddai cost cyfalaf cyflawni datgarboneiddio, insiwleiddio ac ynni adnewyddadwy yn fwy nag £1 biliwn [£1,059.7 miliwn].
    - Ar hyn o bryd, fe archwilir rhannu data rhwng yr arolwg hwn ac asesiad Llywodraeth Cymru o'r ystâd addysg yng Nghymru.
- Darn o ymchwil ansoddol ar ddatgarboneiddio adeiladau'r sector cyhoeddus gan Miller Research ar gyfer CLlLC sy'n ystyried graddfa a chynnydd camau gweithredu Cynghorau er mwyn rhesymoli a datgarboneiddio eu hadeiladau.
    - Bu i 20 o awdurdodau lleol gymryd rhan.
- Bu i 54 o brosiectau gwres carbon isel ar gyfer 11 awdurdod lleol gyrraedd terfyn ariannol yn 2023-24 (£16.3 miliwn o fuddsoddiad, £14.8 miliwn ohono drwy Grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru – a drefnwyd yn wreiddiol gan y Panel Strategaeth Hinsawdd).
- Yn 2023-24, cefnogwyd 42 o brosiectau ar gyfer 19 awdurdod lleol gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.
- Mae astudiaethau achos yn cynnwys rhaglen ffotofoltäig mewn ysgolion (Torfaen); gosod pympiau gwres yn swyddfeydd y Cyngor (Ynys Môn); gosod pympiau gwres mewn ysgolion (Sir Gâr); a fflyd drydan (Merthyr Tudful).

9. Nid oes cymaint o gynnydd â'r disgwyl wedi'i wneud o ran yr ymrwymiadau sero net yng Nghymru i lunio cynllun strategol. Fodd bynnag, o'u defnyddio gyda'i gilydd, bydd gwaith Miller Research a Phartneriaethau Lleol yn sicrhau bod modd datblygu strategaeth o'r fath. Mae'r Grant Gwres Carbon Isel wedi caniatáu i sawl Cyngor wneud newidiadau yn eu prif adeiladau i ddefnyddio dulliau carbon isel o ynni, a chafodd gwersi gwerthfawr eu dysgu yn ystod y broses. Fodd bynnag, mae graddfa'r gwaith sydd angen ei wneud yn enfawr o gymharu â'r cyllid sydd ar gael. Mae'n amlwg y bydd angen blaenoriaethu gwaith a'i gysylltu â chynlluniau rhesymoli ystadau. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gwres carbon isel drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer ysgolion newydd/ ysgolion a adnewyddwyd. Yn gyffredinol, er bod rhai meysydd 'gryn bellter ar eu taith' mae yna dal llawer mwy o waith a buddsoddi i'w wneud os ydym ni am 'gyrraedd ein nod' yn unol â'r trywydd.

### (d) Defnydd Tir

10. Dyma'r cynnydd i'w adrodd ar y defnydd o dir:

- Mae'r Teclyn Mapio Digidol Defnydd Tir, i helpu cynghorau i ddeall effaith atafaelu carbon eu daliadau tir a'r potensial i'w wella, yn cael ei ddiweddaru yn dilyn y cynlluniau peilot cychwynnol a'r adborth.
- Yn dilyn hyn, darperir hyfforddiant technegol ar ddefnyddio'r teclyn System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i bob awdurdod lleol, a ddarperir ar gyfer CLlLC gan Costain a MapDataCymru.
- Mae'r rhaglen yn hyrwyddo hyfforddiant rheolaeth carbon tir i uwch reolwyr, rheolwyr polisi a rheolwyr gwasanaethau arbenigol a gynhelir yn ystod

Chwarter 4, 2024-25, ac a ddarperir ar gyfer CLlLC gan Netherwood Sustainable Futures.
- Mae'r grŵp yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu ymhellach at y rhaglen Sgiliau Sero Net o ran cyfeiriad polisi a Mapiau Trywydd Sectorau.

11. Mae'r grŵp wedi mynd i'r afael â'r holl ymrwymiadau sero net a wnaed yng Nghymru ac wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â hwy ac mae gwaith yn mynd rhagddo i godi ymwybyddiaeth am atafaelu carbon ar y tir ac annog pobl i weithredu ar hynny. Mae CNC (a gynrychiolir ar y grŵp) yn ymgymryd â gwaith i adfer mawndiroedd a chynnig hyfforddiant cysylltiedig. Er bod angen i Gynghorau gyflwyno hyn cyn y gellir honni ein bod 'gryn bellter ar ein taith', mae'r sylfeini wedi'u gosod erbyn hyn.

**(e) Addasiadau**

12. Dyma'r cynnydd i'w adrodd o ran addasiadau:

- Mae'r grŵp tasg a gorffen wedi cyfrannu at Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y camau allweddol y mae llywodraeth leol yn eu cymryd (gweler Atodiad 1).
- Mae'r is-grŵp yn datblygu ystod o ymrwymiadau llywodraeth leol yn yr un modd â'r rhai Sero Net. Cyflwynir yr ymrwymiadau hyn i'r Arweinwyr i'w cymeradwyo, a byddant yn llywio'r rhaglen waith ar gyfer y maes hwn.
- Bwrw ymlaen ag argymhellion i wneud addasiadau o adroddiad a baratowyd ar gyfer CLlLC gan Miller Research ynghylch cynnydd Llywodraeth Leol o ran cyflawni gweithgareddau newid hinsawdd.
- Llunio a chyflwyno sesiwn ynghylch addasiadau ar gyfer Wythnos Hinsawdd Cymru (11-15 Tachwedd 2024), gan rannu enghreifftiau cynnar o arferion yng Nghymru.

**(f) Gwaith trawsbynciol a chymorth pwrpasol i awdurdodau lleol**

13. Dyma'r cynnydd i'w adrodd ynghylch gwaith ehangach:

- Cefnogi adolygiad sero net 2030 gan Gyngor Sir Ynys Môn, a ddarparwyd gan Netherwood Sustainable Futures. Mae'r adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau corfforaethol presennol a thrafodaeth 1:1 gydag ystod o uwch reolwyr a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer cyflawni yn ystod 2025-2030.
- Symleiddio gwaith cynharach gan Uchelgais Gogledd Cymru ar leihau allyriadau a chefnogi bioamrywiaeth drwy wneud prosiectau Bargen Dwf Gogledd Cymru yn fethodoleg achos busnes ar gyfer pob awdurdod lleol. Darperir hyfforddiant, sy'n cynnwys sesiwn gyflwyno a sesiynau manylach i gyfranogwyr a chymeradwywyr achosion busnes, yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2024 ar y cyd ag Arup a Grant Thornton.
- Cafodd hyfforddiant rheolaeth carbon tir ei ddarparu i Gyngor Bro Morgannwg, gan Netherwood Sustainable Futures, gan ddod ag ystod o

uwch swyddogion adrodd ynghyd i gael trafodaeth ynghylch rheoli mannau gwyrdd y Cyngor er mwyn cefnogi sero net.
- Gwaith cefnogi pwrpasol presennol gyda Chyngor Sir Gâr (teithio cynaliadwy mewn perthynas ag ad-drefnu ystadau) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (datblygu argymhellion defnydd tir yn seiliedig ar asesiadau ecolegol er mwyn llywio strategaeth rheoli asedau).
- Ar y cyd â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, rydym wedi cyhoeddi adolygiad 'Trosglwyddiad sero net dan arweiniad awdurdod lleol'. Mae'r adnodd yn canolbwyntio ar ddau brif faes: sut y gall awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i gamau gweithredu ar newid hinsawdd; a datrysiadau ariannol arloesol i gefnogi awdurdodau lleol i drosglwyddo i sero net. Bydd cynnwys yr adolygiad yn cael ei gynnwys mewn sesiynau arwain yn y dyfodol drwy'r rhaglen hon er mwyn hwyluso trafodaeth bellach gyda Chynghorau.

## Gweithio tuag at uchelgais sero net 2030 y sector cyhoeddus a Chyllideb Garbon 3

14. Ym mhob un o'r pedwar maes gwaith hwn felly, mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn ymrwymiadau sero net Cymru y bu i Gynghorau a'r 'trywydd' gytuno arnynt. Bydd gwneud cynnydd pellach yn parhau i fod yn heriol o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol sy'n wynebu pob Cyngor. Fodd bynnag, gallai rhai o'r mesurau arbed arian a/neu greu incwm dros eu cyfnod, yn ogystal â chyfleoedd drwy waith caffael cydweithredol, ac mae'r rhain yn negeseuon allweddol i awdurdodau lleol drwy'r rhaglen hon.

15. Mae achos busnes i sicrhau cyllid parhaus ar gyfer Rhaglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLlLC yn cael ei lunio ar hyn o bryd, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys darpariaeth er mwyn galluogi CLlLC i barhau i gefnogi gwaith y pum grŵp. Bydd yn cynnwys cyllideb arfaethedig fel bod modd comisiynu gwaith pellach lle bo Cynghorau yn nodi bod hynny'n angenrheidiol ac yn ddefnyddiol. Gallai hynny fod ar gyfer pob un o'r 22 o gynghorau (a, lle bo'n briodol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) neu ar gyfer Cynghorau unigol/ grwpiau o Gynghorau, lle gellir rhannu'r gwersi a ddysgwyd â phawb. Ym mhob achos, bydd y grwpiau'n parhau i gynnig cefnogaeth (i) wrth weithio tuag at 2030, gan gynnwys cyfrannu at gynlluniau ar gyfer Cyllideb Garbon 3 ac (ii) ystyried y gofynion lliniaru ac addasu cymunedol sy'n gysylltiedig â tharged sero net ehangach Cymru a'r DU ar gyfer 2050.

16. Bydd cefnogaeth barhaus ar gael i Gynghorau drwy ffyrdd eraill, megis blwyddyn arall o gymorth ariannol drwy'r Grant Gwres Carbon Isel a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, sydd hefyd yr un mor bwysig. Yn yr un modd, ar ôl i bob un o'r 22 ardal Cyngor dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n hollbwysig cytuno ar ffyrdd o fwrw ymlaen â'r cynlluniau hynny. Bydd

datgarboneiddio cyflenwadau ynni a sicrhau gwell mynediad at gyflenwadau ynni gwyrdd ar draws Cymru yn sail i ymdrechion i weithio tuag at sero net mewn Cynghorau, o ran cludiant, adeiladau, tir ac ymdrechion i gaffael gan gyflenwyr lleol a charbon isel. Fodd bynnag, wrth fwrw ymlaen â'r cynlluniau hynny, mae'n rhaid i wytnwch y cyflenwad fod yr elfen bwysicaf, a bod gofynion yr addasiadau yn berthnasol i'n dull o gynhyrchu a dosbarthu ynni yn y dyfodol, cymaint â phob maes arall (e.e. diogelu digwyddiadau tywydd garw yn y dyfodol).

**Argymhelliad**

17. Fe argymhellir bod y Cyngor Partneriaeth yn nodi'r cynnydd a wnaed gan grwpiau tasg a gorffen y Panel Strategaeth Hinsawdd ac yn nodi ei gefnogaeth i ymestyn Rhaglen Gefnogi Newid Hinsawdd CLlLC, fel y nodir ym mharagraffau 15 ac 16, o gofio y daw'r cyllid presennol i ben ddiwedd mis Mawrth nesaf.

**ATODIAD 1 – ymrwymiadau Llywodraeth Leol**

Mae'r ymrwymiadau y mae llywodraeth leol wedi'u gwneud ac sydd wedi'u cynnwys yn Sero Net Cymru i'w gweld yn y tabl isod.

## Net Zero Wales LG Commitments

**Buildings**
- Develop and deliver a strategic plan for decarbonising local authority estate.

Ystadau Cymru as strategic lead;
- Strategic plan for decarbonising buildings by end of 2023.
- All public buildings supplied with low carbon heat by 2030.
- All new public sector buildings are built to net zero standard.

**Procurement**
- Develop understanding of emissions profile of all procured goods and services by end of 2022.
- Carbon reduction specifications in all new or reviewed contracts.
- Focus on a number of priority contracts and share learning re. decarb across LAs by end 2022 – to develop a decarb approach to be applied to all contracts by 2023.

**Mobility & Transport**
- Build on fleet reviews and develop plans for transforming fleet, inc. EV charging infrastructure, all new cars and light goods vehicles ULEV by 2025, reduce carbon footprint of buses, taxis and private hire vehicles to zero by 2030.
- Grey fleet review to be completed by end of 2022 (working with WGES)
- Support remote working where possible, at home or in hubs. Encourage active travel and public transport.

**Land Use**
- Map out local authority land holdings by April 2022 to identify types of land and their potential for carbon sequestration, renewable energy and flood management.
- Carbon sequestration seen as a core purpose for public land by leaders.
- Develop 5 year training and apprenticeship programme and peatland restoration to support the supply chain.

**Addasiadau**

Mae'r grŵp tasg a gorffen addasiadau, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024, drwy ganolbwyntio ar bedwar maes:

1. Partneriaeth a Chydweithio
2. Gwytnwch Gwasanaeth
3. Gwytnwch Cymunedol
4. Arweinyddiaeth